CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 2727 (Cy.262)

# AER GLÂN, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn gwahardd yn gyffredinol ollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg. Caiff Cynulliad Cenedaethol Cymru, trwy orchymyn wedi'i wneud o dan adran 21 o'r Ddeddf, esemptio dosbarthiadau penodedig o leoedd tân o ddarpariaethau adran 20, os yw wedi'i fodloni y gellir eu defnyddio i losgi tanwyddau heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn eithrio o ddarpariaethau adran 20 y dosbarthiadau o leoedd tân sy'n cael eu rhestru yng ngholofn gyntaf yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i'r amodau sy'n cael eu rhestru yn ail golofn yr Atodlen honno.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 2727 (W.262)

# CLEAN AIR, WALES

## The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 20 of the Clean Air Act 1993 places a general prohibition on the emission of smoke in smoke control areas. The National Assembly may, by order made under section 21 of the Act, exempt specified classes of fireplace from the provisions of section 20, if it is satisfied that they can be used for burning fuels without producing any smoke or a substantial quantity of smoke.

Article 2 of this Order exempts the classes of fireplace listed in the first column of the Schedule to this Order from the provisions of section 20, subject to the conditions listed in the second column of that Schedule.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 2727 (Cy.262)

# AER GLÂN, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud* *23 Hydref 2003*

*Yn dod i rym* *14 Tachwedd 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(**a**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**b**), gan ei fod wedi'i fodloni y gall y dosbarthiadau o leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwyddau nad ydynt yn danwyddau awdurdodedig heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 14 Tachwedd 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Dosbarthiadau o leoedd tân sy'n cael eu hesemptio o adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993**

**2**. Mae'r dosbarthiadau o leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemptio o ddarpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sydd yn gwahardd allyriannau mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**c**).

23 Hydref 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1993 p.11.

(b) Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(c) 1998 p.38.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 2727 (W.262)

# CLEAN AIR, WALES

## The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2003

*Made* *23rd October 2003*

*Coming into force* *14th November 2003*

The National Assembly for Wales ("National Assembly"), in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 21 of the Clean Air Act 1993(**a**) and now vested in the National Assembly(**b**), and being satisfied that the classes of fireplace exempted by this Order can be used for burning fuel other than authorised fuels without producing any smoke or a substantial quantity of smoke, hereby makes the following Order:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) This Order may be cited as the Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2003 and comes into force on 14th November 2003.

(2) This Order applies to Wales.

**Classes of fireplace exempted from section 20 of the Clean Air Act 1993**

**2**. The classes of fireplace described in the Schedule are, upon the conditions there specified, exempted from the provisions of section 20 of the Clean Air Act 1993 (which prohibits smoke emissions in smoke control areas).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**c**).

23rd October 2003

*D. Elis-Thomas*

Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1993 c.11.

(b) The powers were transferred to the National Assembly for Wales by Article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

**Dosbarthiadau o leoedd tân esempt**

| **Dosbarthiadau o leoedd tân** | **Amodau** |
|---|---|
| Y B9 Energy Wood Chip Gasifier Unit a gynhyrchir gan B9 Energy Biomass Limited, Unit 22, Northland Road Industrial Estate, Londonderry, Gogledd Iwerddon. | 1. Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr dyddiedig 2002 ac y mae arnynt y cyfeirnod "001/B9ENERGY BIOMASS".<br>2. Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd heblaw sglodion o bren heb eu trin, ysgyrion o bren neu ddarnau bach o bren heb eu trin. |
| Modelau 110, 140, 180, 220, 280 a 350 o'r Mawera FU-RIA wedi'u cynhyrchu gan Mawera (UK) Limited, 31 Enterprise Industrial Park, Britannia Way, Caerlwytgoed, Swydd Stafford, Lloegr WS14 9UY. | 1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr dyddiedig 31 Hydref 2002 ac y mae arnynt y cyfeirnod "098234-01".<br>2. Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd heblaw pren, cynhyrchion pren, gweddillion fforest, teneuon fforest, bwrdd sglodion MDF wedi'i orchuddio â melamin neu heb ei orchuddio, pren haenog, neu gynhyrchion pren cyfansawdd. |

## SCHEDULE

Article 2

**Classes of fireplace which are exempt**

| **Classes of fireplace** | **Conditions** |
|---|---|
| The B9 Energy Wood Chip Gasifier Unit manufactured by B9 Energy Biomass Limited, Unit 22, Northland Road Industrial Estate, Londonderry, Northern Ireland. | 1. The fireplace must be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated 2002 and bearing the reference "001/B9ENERGY BIOMASS".<br>2. No fuel is to be used other than untreated wood chips, shredded wood or small untreated pieces of wood. |
| The Mawera FU-RIA models 110, 140, 180, 220, 280 and 350 manufactured by Mawera (UK) Limited, 31 Enterprise Industrial Park, Britannia Way, Lichfield, Staffordshire, England WS14 9UY. | 1. The fireplaces must be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated 31 October 2002 and bearing the reference "098234-01".<br>2. No fuel is to be used other than wood, wood products, forest residues, forest thinnings, melamine coated or uncoated MDF chipboard, plywood, or compound wood products. |

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 2727 (Cy.262)

# AER GLÂN, CYMRU

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 2727 (W.262)

# CLEAN AIR, WALES

The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090799-X

9 780110 907994

**£1.75**

W173/10/03 ON